## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 1 Tachwedd 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 1 Tachwedd 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 8 Tachwedd 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC Gweithredu'r cynllun 'Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm'**

**PENDERFYNIAD –**
Gweithredu 'Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm', sydd wedi derbyn cynnig o £1,864,500 o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG, i gynnwys y gwahanol gydrannau fel sydd wedi cael eu rhestru yn Atodiad 1

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Nia Jeffreys |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Esyllt Rhys Jones<br>Rheolwr Rhaglenni Adfywio |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 1 Tachwedd 2023 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

**PWNC: Gweithredu'r cynllun 'Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm'**

**Argymhellion ar gyfer y Penderfyniad:**

1. Gweithredu 'Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm', sydd wedi derbyn cynnig o £1,864,500 o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG, i gynnwys y gwahanol gydrannau fel sydd wedi cael eu rhestru yn Atodiad 1

**Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:**

Ymrwymodd Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5) £21,352,966 o arian Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i 38 o gynlluniau. Roedd y cynllun 'Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm' yn un o'r ceisiadau gymeradwywyd.

Mae cytundeb ariannu bellach wedi ei dderbyn ar gyfer yr arian. Mae angen penderfyniad i gadarnhau fod y Cyngor yn cymeradwyo y pecyn arfaethedig o gynlluniau sydd oddi fewn i'r cynllun hwn.

Er mwyn datblygu pecyn llawn ar gyfer y cynllun Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm mae ymarferiad sgopio wedi cymryd lle ar draws gwasanaethau'r Cyngor a hynny ar ffurf gwahoddiad i gyflwyno ffurflen syniadau cychwynnol a thrwy sgyrsiau gyda Phenaethiaid a Rheolwyr o fewn Adrannau.

Mae'r gwaith sgopio hwn wedi cymryd sawl agwedd i ystyriaeth, megis canlyniadau gwaith ymgysylltu Ardal Ni, trawstoriad daearyddol cynlluniau ynghyd a'r gallu i gyflwyno amrediad ac amrywiaeth o ymyraethau drwy Wynedd. Gan fod amserlen gwario y Gronfa Ffyniant Gyffredin mor dynn, yr holl wariant angen ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024, roedd ystyriaeth i ymarferoldeb gwario ac aeddfedrwydd cynlluniau felly yn un o'r prif ystyriaethau er mwyn uchafu budd y buddsoddiad i'r Sir ac i leihau'r risg o golli'r arian.

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn crynhoi'r cynlluniau sydd wedi eu cynnwys o fewn y cynllun Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm.

Mae'r cynllun Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm yn un cynllun o fewn rhaglen ehangach o ymyraethau sydd gan y Cyngor i adfywio canol ein trefi. Mae'r cynllun yn ychwanegu gwerth at gynlluniau eraill a ariennir drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin megis y grantiau i gefnogi busnesau ac yn benodol y grantiau i wella edrychiad eiddo mewn canol trefi.

Mae'r cynllun hefyd yn ychwanegu gwerth at gynlluniau a ariennir drwy amryw o ffynonellau megis Trawsnewid Trefi, rhaglen adfywio Llywodraeth Cymru, y Gronfa Ffyniant Bro a'r cynllun Llewyrch o'r Llechi sydd yn cael ei weithredu yng nghymunedau Blaenau Ffestiniog, Bethesda a Llanberis, ynghyd a chynlluniau mewnol y Cyngor megis Cymunedau Glan a Thaclus a Chynllun Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae 'adfywio cymunedau a chanol trefi' yn un o'r prosiectau o fewn y maes blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

Mae'r cynllun 'Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm' yn ran allweddol o'r pecyn ehangach o gynlluniau a rhaglenni i wella canol trefi'r Sir sydd dan sylw.

Mae’r cynllun yn cynnwys trawstoriad o ymyraethau i wella safon gyda’r bwriad i osod sylfaen i'r trefi ar gyfer buddsoddiad a balchder i'r dyfodol drwy fuddsoddi a chodi safon cyfleusterau sylfaenol ein trefi.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid

“Gallaf gadarnhau fod y swm o £1,864,500 a nodir yn y daflen benderfyniad yma yn gyson â’r swm a glustnodwyd ar gyfer y prosiect yma gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2023. Bydd swyddogion yr Adran Gyllid yn ymgymryd â gwaith o fonitro gwariant yn y maes yma yn unol â’r trefniadau arferol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r dyraniad sy’n ymddangos yr Atodiad”

Swyddog Monitro:

“Dim sylwadau i’w hychwanegu os safbwynt priodoldeb”

Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol

**Atodiad 1 -** Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm

| | **Prosiect** | **Gwerth** |
|---|---|---|
| *Cynlluniau yn cynnwys mwy nag un dref* | | |
| | Ymgyrch Prynu'n Lleol Sirol | £45,000 |
| | Uwchraddio Meinciau a Biniau yn nhrefi y Sir | £70,000 |
| | Diogelwch Cymunedol (Bangor, Caernarfon a Pwllheli) | £456,271 |
| | Cynlluniau Creadigol (yn cynnwys cynllun finyl a chelf) | £200,000 |
| | Cynllun finyl trefi ardal Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd | £10,000 |
| | Astudiaeth ymchwil i waelodlin canol trefi | £20,000 |
| *Cynlluniau Trefi Penodol* | | |
| *Pwllheli* | Uwchraddio Cei'r Gogledd | £175,000 |
| *Porthmadog* | Gwelliannau ffisegol i brif drefi cydrannau Safle Treftadaeth y Byd (arwyddo, celf ac isadeiledd) ** | *£175,000* |
| *Penygroes* | Gwelliannau ffisegol i brif drefi cydrannau Safle Treftadaeth y Byd (arwyddo, celf ac isadeiledd) ** | *£175,000* |
| *Tywyn* | Gwelliannau ffisegol i brif drefi cydrannau Safle Treftadaeth y Byd (arwyddo, celf ac isadeiledd) ** | *£175,000* |
| *Bangor* | Cynllun arwyddo yng nghanol y Ddinas * | £46,000 |
| *Cricieth* | Uwchraddio ardal Y Maes | £33,584 |
| *Dolgellau* | Uwchraddio Tŷ Siamas | £25,000 |
| *Rhagbaratoi Cynlluniau Strategol* | | |
| | Astudiaeth Ardrawiad Economaidd Canolfan Iechyd a Lles Bangor | £15,000 |
| | Astudiaeth Dichonoldeb Ardal Pen Llyn, Cei Llechi a Oriel Pendeitch Caernarfon | £150,000 |
| *Rheolaeth a Gwerthuso* | | |
| | | £93,645 |
| **CYFANSWM** | | **£1,864,500** |

* cynllun yn cydariannu cyllid Trawsnewid Trefi

** gwaith yn ychwanegu gwerth at welliannau yng nghydrannau Dinorwig, Ogwen a Ffestiniog sydd yn cael eu hariannu drwy gynllun Llewyrch o'r Llechi (Cronfa Ffyniant Bro)